Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
Department for Economy, Science and Natural Resources

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

6 Ionawr 2017

Annwyl Mr Ramsay

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 6 Rhagfyr gyda rhagor o wybodaeth ynglŷn â lliniaru'r risgiau a aseswyd ac a gafodd eu hystyried yn ystod y broses arfarnu ar gyfer cais Kancoat.

1. Peidio â sicrhau lefel ymarferol o archebion – darparwyd contract gwerthiannau ag un cwsmer, a nifer o negeseuon e-bost positif gan gwsmeriaid posibl eraill fel tystiolaeth

2. Peidio â chael y bobl iawn – telid y grant ar yr amod y byddai meini prawf recriwtio penodol yn cael eu bodloni

3. Diffyg ar y cynhyrchion a gyflenwir i gwsmeriaid – roedd treialon cynnyrch ar y gweill o dan ofal darpar gwsmeriaid a samplwyd swp o araenau

4. Diffyg ar y cynhyrchion a gyflenwir i'r cwmni – roedd y cynllun busnes wedi'i rannu'n gyfartal rhwng araenu'n fanwl gywir ddeunydd a ddarparwyd gan y cwsmer ac araenu dur a brynwyd

5. Diffyg ar yr offer prosesu – roedd y linell araenu eisoes yn cael ei defnyddio ar gyfer treialon cynnyrch a threialon gan gwsmeriaid

6. Treialon hir cyn cymhwyso – roedd treialu cynhyrchion a threialu gan gwsmeriaid eisoes ar y gweill

7. Peidio â chyflenwi'r cwsmeriaid mewn pryd – roedd amseroedd cynhyrchu Kancoat yn fyrrach o lawer na safon y diwydiant o ganlyniad i'w ddull mwy hyblyg na'i gystadleuwyr o gynhyrchu ar raddfa lai, ac am fod y cynnyrch yn gymysgedd o ddeunydd a ddarperir gan y cwsmer a deunydd a brynwyd

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Canolfan QED • QED Centre
Y Brif Rodfa • Main Avenue
Trefforest • Treforest
CF37 5YR

Ffôn • Tel 0300 061 5691
mick.mcguire@cymru.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.cymru.gov.uk

8. Colli Staff Allweddol – roedd y cyfarwyddwr wedi ymrwymo i'r prosiect ac wedi cyflogi tîm staff cryf a ddangosodd ymrwymiad personol cryf i lwyddiant y busnes

9. Peidio â tharo'r targedau cynhyrchu – roedd y symiau a nodwyd yn y cynllun busnes yn sylweddol is na'r capasiti cynhyrchu a nodwyd yn y manylebau cychwynnol

10. Prisiau ynni'n codi – cyflwynwyd fel tystiolaeth gytundeb rhwng Kancoat ac Alcoa a oedd yn cynnwys costau a symiau ar gyfer cyflenwi ynni yn yr hirdymor

11. Risgiau wedi'u hyswirio – cyflwynwyd tystiolaeth i gadarnhau bod yr holl yswiriannau perthnasol wedi'u trefnu

Yn gywir

Mick McGuire
Cyfarwyddwr, Sectorau a Busnes